YMATEB MANTELL GWYNEDD I'R YMGYNGHORI I NEWID STRWYTHUR Y GIG YNG NGHYMRU

Cyflwyniad

Mae Mantell Gwynedd yn ddiolchgar am y cyfle i roi ymateb a mewnbwn i'r broses o ymgynghori ar y mater o newid strwythur y CIG yng Nghymru ond **mae'n siom gennym nodi fod cyn lleied o gyfeiriad at y Trydydd Sector yn y ddogfen ymgynghorol o gofio cyfraniad allweddol bwysig sydd gan y Trydydd Sector yn y maes yma.**

Fel Cyngor Sirol Gwirfoddol yn cynrychioli buddiannau'r Trydydd Sector yng Ngwynedd mae Mantell Gwynedd mewn sefyllfa ardderchog i adlewyrchu barn a phryderon y Trydydd Sector yng Ngwynedd ar y mater yma.

Ym mis Mai 2009 nododd y Gweinidog dros Iechyd ei bod yn awyddus bod grwpiau cleifion, arweinwyr lleol, Cynghorau Iechyd a'r mudiadau a grwpiau o fewn y Trydydd Sector yn rhoi eu barn ac yn cyd weithio i ymateb i'r ymgynghori gan sicrhau ymateb cyflawn sydd yn adlewyrchu safiad y Sector.

I'r perwyl yma mae Mantell Gwynedd wedi gweithio gyda nifer o grwpiau a rhwydweithiau o fewn y Sir er mwyn tynnu at ei gilydd y ddogfen hon.

Cefndir

Y prif argymhelliad yw lleihau y nifer o Fyrddau Iechyd Lleol, lleihau y nifer o Ymddiriedolaethau CIG, trosglwyddo rhai gwasanaethau o'r Ymddiriedolaethau i'r Byrddau Iechyd, sefydlu rheolaeth strategol Cymru gyfan gyda ffocws ar wasanaethau gofal i gleifion a throsglwyddo gwasanaethau swyddfa cefnogol.

Cyfeirir at sefydlu Bwrdd Iechyd Gogledd Orllewin, Ymddiriedolaeth CIG Gogledd Orllewin gyda threfniant i drosglwyddo Ysbyty Llandudno i ofalaeth Ymddiriedolaeth y Gogledd Ddwyrain. Byddai gweddill Gogledd Cymru yn cael ei wasanaethu gan un Bwrdd Iechyd Lleol ac un Ymddiriedolaeth Iechyd

Yr hyn sydd yn allweddol bwysig yma i'r Trydydd Sector yw y byddai y trefniadaeth a'r ddealltwriaeth leol sydd wedi ei sefydlu dros nifer helaeth o flynyddoedd rhwng y gwasanaethau lleol a'r sector wirfoddol leol yn newid.

Materion i'w Nodi

Budd i Bwy?

Mae'n rhaid i unrhyw ail strwythuro sicrhau mai **budd y claf** yw'r peth pwysicaf yn hyn i gyd a ddylai ddylanwadu ar unrhyw drefniadaeth ddiwygiedig. Mae'n hanfodol felly sicrhau lle canolog i'r defnyddiwr gwasanaeth, gofalwyr a'r "dinesydd" yn yr holl broses.

Rydym yn croesawu'r cysyniad o ddiddymu'r Farchnad Fewnol yng Nghymru i sicrhau prosesau comisiynu mwy tryloyw ac agored ond hefyd bydd rhaid cyfarch y canlynol:

Creu Systemau Craffu Gwasanaethau effeithiol
Gall dulliau newydd o aildrefnu gwasanaethau gynnig mwy o hyblygrwydd a llai o brosesau ffurfiol a mwy o hyrwyddo cyfranogiad gan 'y dinesydd", defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Fodd bynnag wrth sefydlu unrhyw drefniadaeth newydd mae'n holl bwysig sefydlu systemau craffu trylwyr i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mae'n bwysig iawn sicrhau bod modelau o'r fath mewn lle o'r dechrau cyntaf. Yn amlwg mae gan y trydydd sector, ac yn arbennig y Cynghorau Gwirfoddol lleol, ran allweddol i hwyluso systemau craffu yma'n lleol. I gyflawni hyn yn effeithiol rhaid wrth gwrs sicrhau bod adnoddau digonol i gefnogi hyn yn llawn a fydd yn cynnwys adnoddau i ddatblygu cynhwysedd a sgiliau unigolion i fedru bod yn gwbl effeithiol yn y rôl yma.

Argymhelliad:
Sefydlu prosesau craffu yn lleol a chenedlaethol a hynny mewn cydweithrediad efo'r Cynghorau Gwirfoddol lleol a'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

Diwallu Anghenion Cymunedau Lleol
Bydd rhaid i unrhyw newid sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu diwallu ac na fydd aelodau o'r gymuned honno ar ei cholled mewn unrhyw ffordd. Mae'n hanfodol felly sicrhau y bydd gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol yn parhau i dderbyn cefnogaeth a'u cyllido'n ddigonol. Bydd angen cadarnhau na fydd y mudiadau lleol yma yn wynebu toriadau ariannol. Mae mudiadau llai yn rhan annatod o gymunedau yn arbennig mewn ardal wledig fel Gwynedd - maent yn arbenigol yn eu meysydd penodol hwy ac yn deall ac yn adnabod anghenion cymunedau y maen nhw'n rhan ohoni. Fe fyddai colli'r rhain yn golled aruthrol a fyddai'n sicr o gael effaith ar iechyd a lles unigolion.

Argymhelliad

- Diogelu gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau gwirfoddol lleol

- Cefnogi swyddi'r Hwyluswyr (22 swydd) dan gynllun Codi Pontydd Cadarn gan fod y swyddi hyn yn allweddol i sicrhau llais i'r sector wirfoddol. Mae'r Hwyluswyr yn gallu rhoi mewnbwn lleol gwrthrychol a hefyd yn cydweithio'n agos efo'r Cynghorau Iechyd Cymuned lleol - mae'n sicr bod lle i adeiladu ar y berthynas yma ymhellach yng nghyswllt rhoi llais i'r "dinesydd".

- Mwy o bwyslais ar gyd-weithio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynhwysedd darparwyr Gwasanaethau Lleol
Mae'n holl bwysig sicrhau bod hyn yn parhau oddi fewn i strategaeth gomisiynu ac mae'n hanfodol sicrhau adnoddau digonol i hyfforddi darparwyr gwasanaethau i ymdopi â'r gofynion newydd a fydd yn cael eu rhoi arnyn nhw.

Argymhelliad:

- Sicrhau adnoddau digonol i gefnogi ac arfogi'r trydydd sector i ddelio â'r cyfnod trosiannol newydd

Cyfraniad y Sector Wirfoddol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
Fe fyddem wedi meddwl y byddai mwy o gyfeiriad at y sector wirfoddol yn y ddogfen hon gan fod y sector yn gwneud cyfraniad hanfodol i wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn y gymuned yn gyffredinol. Mae gwerth mawr i'r cyrff gwirfoddol a chymunedol oherwydd eu gwaith yn cynrychioli a chynnal y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau ac yn meddu ar arbenigedd a phrofiad helaeth mewn sawl maes. Yn aml mae'r gwasanaethau a'r gynhaliaeth a ddarperir gan y sector gwirfoddol yn llenwi bylchau ac yn ychwanegu at y ddarpariaeth statudol sy'n wasanaeth hanfodol i gymunedau.

Mae'r Sector Gwirfoddol yn adnodd pwysig iawn a ddylai ymgymryd yn llawn â phob agwedd o gynllunio gwasanaethau ar bob lefel.

Cydnabyddir rôl bwysig y sector gwirfoddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel partner allweddol sydd yn gweithredu ei pholisi iechyd a lles ac mae wedi cyfeirio at hyn ar sawl achlysur ac yng nghyswllt Adroddiad Codi Pontydd Cadarn - "Gellir cryfhau rôl y sector gwirfoddol o fewn Ymddiriedolaethau a gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn arbennig wrth ymwneud ag iechyd grwpiau bregus a difreintiedig, a chyfranogiad cyhoeddus a gwirfoddoli".

Rhaid wrth gyfathrebu effeithiol rhwng pob sector i wireddu'r weledigaeth yn llawn ac mae'n hanfodol cael dulliau cyfathrebu dwyffordd ar bob lefel. Mae gweithio mewn gwir bartneriaeth yn broses sydd am gymryd amser ac fe ddylem adeiladu ar y sylfaeni cryf sydd wedi eu gosod yn barod i sicrhau fod pob partner yn gyfartal yn yr holl broses o ddarparu gwasanaethau iechyd i Gymru.

Argymhelliad:

- Sicrhau cynrychiolaeth deg o'r sector wirfoddol ar bob Bwrdd yn lleol ac yn Genedlaethol ynghyd â sicrhau adnoddau digonol i gefnogi a datblygu cynhwysedd y sector.

- Cydnabyddiaeth i'r Cynghorau Gwirfoddol lleol o'u rôl yn cefnogi mudiadau a grwpiau cymunedol a rhoi llais teg i unigolion o fewn y cymunedau hynny.

Sylwadau Cloi:
Heb os ac oni bai mae'r argymhellion i newid strwythur y GIG yng Nghymru am fod yn sialens ac yn her i bob sector. Mae enghreifftiau da o le mae'r Ymddiriedolaeth ynghyd â'r Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn cydweithio efo'r sector wirfoddol yn ddiweddar ac mae'n bwysig diogelu ac yn wir adeiladu ar hyn.

Rydym yn croesawu llai o fiwrocratiaeth wrth reswm wrth gynllunio ac ariannu gwasanaethau hyblyg ac effeithiol a fydd â'r gallu i fynd i'r afael â gwir anghenion iechyd ein cymunedau. Drwy'r gweithdrefnau arfaethedig newydd y gobaith yw y bydd modd i bob sector gydweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd ac y bydd cyfleoedd hefyd i'r trydydd sector brofi ei harloesed mewn sawl maes.

Dylai unrhyw newidiadau fod yna er **budd y claf, gofalwyr a'r 'dinesydd'** i sicrhau gwasanaeth o'r safon uchaf. I wireddu hyn yn llawn bydd rhaid wrth fewnbwn allweddol y trydydd sector drwy'r holl weithdrefnau'r. I unrhyw drefn newydd fod yn llwyddiannus yn y pendraw mae'n rhaid creu prosesau teg ac agored sy'n atebol i anghenion unigolion a sicrhau perchnogaeth gyfartal gan bawb.

BETHAN RUSSELL OWEN
PRIF SWYDDOG
MANTELL GWYNEDD